Llawlyfr Ysgol Pentreuchaf Handbook

GALLWN ROI DAU BETH PWYSIG I'N PLANT – UN YW GWREIDDIAU A'R LLALL YW ADENYDD

01758 750600 WWW.YSGOLPENTREUCHAF.ORG @YSGOLPENTREUCHAF @PENTREUCHAF

Llawlyfr Ysgol Pentreuchaf 2024-25

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad:	Ysgol Pentreuchaf Pentreuchaf Pwllheli Gwynedd LL53 8DZ
Rhif Ffôn:	01758 750600
E-bost:	pennaeth@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru
Gwefan:	www.ysgolpentreuchaf.org
Dilynwch ni ar:	@YsgolPentreuchaf
Pennaeth:	Mrs Helen Vaughan-Jones
Dirprwy Bennaeth:	Mrs Einir Humphreys
Cadeirydd y Llywodraethwyr:	Mrs Lois Rhys Jones
Math o ysgol:	Ysgol Gynradd Sirol (Meithrin, Babanod a Iau) yw'r ysgol hon. Mae'n ysgol ddyddiol, Gymraeg, gyd-addysgol.
Amrediad oedran:	3 – ll oed
Statws Ieithyddol:	Ysgol Cyfrwng Cymraeg (Categori 3) – Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr Ysgol a'r tu allan iddi. O 7 oed ymlaen, bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.
Safle'r ysgol:	Saif yr ysgol ar gyrion Pentreuchaf, oddeutu pedair milltir i'r gogledd o dref Pwllheli, lle mae golygfeydd godidog. Agorwyd yr ysgol wreiddiol ym 1908, ac yn 2011/2012 cwblhawyd maes parcio newydd, estyniad o dri dosbarth modern gan gynnwys toiledau a llyfrgell sy'n gweddu'n gydnaws â'r hen adeilad gwreiddiol. Clustnodwyd gardd ysgol, ardal tu allan penodol ar gyfer dosbarthiadau Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1 a cae chwarae eang i weddill yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraethwyr a Chyfeillion yr ysgol er mwyn sicrhau fod amgylchedd yr ysgol yn sbarduno brwdfrydedd plant ac yn adlewyrchu barn y disgyblion.

Gair o Groeso gan y Pennaeth

Mae'n bleser gen i gyflwyno Llawlyfr Ysgol Pentreuchaf 2024-2025 i chi, gan eich croesawu'n gynnes i gymuned Ysgol Pentreuchaf. Bwriad y llawlyfr yw rhoi gwybodaeth bwysig i chi am fywyd yr ysgol fel bod eich plentyn yn ymgartrefu'n dda yma a'ch bod yn teimlo'n hyderus am y gofal y mae o neu hi yn ei dderbyn gan yr ysgol.

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn falch o greu awyrgylch hapus, gofalgar a gweithgar i'n holl ddisgyblion. Credwn yn gryf fod pob plentyn yn bwysig ac yn haeddu addysg o'r safon uchaf. Mae'n bwysig iawn i ni, fel staff a llywodraethwyr, bod pob plentyn sy'n derbyn addysg yn Ysgol Pentreuchaf yn ffynnu o fewn awyrgylch cyfeillgar, diogel a Chymreig gan eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r awyrgylch hwn yn rhan annatod o'n cymuned ysgol, gan helpu i feithrin hunan-barch, cymhelliant, a chyfeillgarwch cryf ymhlith y disgyblion. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod pob plentyn yn cael dechreuad cadarn, nid yn unig mewn llythrennedd a rhifedd, ond hefyd mewn sgiliau, ymagweddau a gwerthoedd sydd yn angenrheidiol i lwyddo wrth iddynt aeddfedu i fod yn oedolion.

Ein prif nod yw bod disgyblion Ysgol Pentreuchaf yn gadael yr ysgol yn bobl ifanc sydd yn mwynhau dysgu ac sydd wedi'u harfogi gyda sgiliau i fod yn ddysgwyr gydol oes. Ymfalchïwn yn fawr yn yr ymdeimlad o berthyn i deulu sydd yn bodoli yn yr ysgol.

Rydym yn sicrhau profiadau eang ac amrywiol i'r plant fel eu bod yn tyfu a datblygu'n hyderus ac yn barod i chwarae rhan yn eu cymunedau ehangach fel plant a phobl ifanc cwrtais, cyfrifol, annibynnol a chymwynasgar. Yn ogystal â'n hymroddiad i ddarparu addysg academaidd o'r safon uchaf, rydym yn credu'n gryf bod addysg allgyrsiol yn hanfodol i ddatblygiad ein disgyblion.

Rydym yn ffodus o gael Cylch Meithrin Pentreuchaf ar safle'r ysgol, sy'n darparu gofal ac addysg o safon uchel i blant cyn-ysgol. Mae'r Cylch Meithrin yn rhan annatod o'n cymuned ysgol, gan roi cyfle i'r plant bach gael profiadau dysgu cynnar mewn amgylchedd cyfarwydd, cyn iddynt symud ymlaen i'r ysgol. Mae hyn yn creu pont ddi-dor rhwng y blynyddoedd cynnar a'r addysg gynradd, gan sicrhau bod y plant yn cael y dechrau gorau posibl ar eu taith addysgol.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda chi fel rhieni, gan gydnabod y rôl hanfodol rydych yn ei chwarae yn llwyddiant eich plant. Rydym yn croesawu eich mewnbwn a'ch cefnogaeth wrth i ni greu cymuned ysgol lle mae pob plentyn yn cael ei annog i gyrraedd ei lawn botensial. Mae cyswllt agos rhwng ysgol a chartref yn holl bwysig i ddatblygiad plant, a gofynnwn i chi gysylltu yn syth os oes unrhyw beth yn eich pryderu. Ein nod yma yw gwneud cyfnod eich plentyn yn yr ysgol yn hapus, llwyddiannus a chyffrous, a gwerthfawrogwn eich cymorth yn fawr wrth wneud hyn.

'Gallwn roi dau beth pwysig i'n plant – un yw gwreiddiau a'r llall yw adenydd.'

Edrychwn ymlaen i'ch cyfarfod.

Mrs Helen Vaughan-Jones

(Pennaeth)

Oriau Ysgol:

Cyrraedd yr ysgol	**08:50 – 09:00**
Sesiwn Bore	**09:00 – 12:00**
Amser Chwarae Bore	**10:30 – 10:45**
Amser Cinio	**12:00 – 13:00**
Amser Chwarae Prynhawn	**14:15 – 14:30**
Sesiwn Prynhawn	**13:00 – 15:30**
Amser mynd adref	**15:30**
Meithrin	**09:00 – 11:00**

Cysylltu â'r ysgol:

Mae croeso i chwi ddod i sgwrsio gyda'r pennaeth neu'r athrawes ddosbarth ar unrhyw adeg, mae drws yr ysgol bob amser yn agored. Cysylltwch drwy ffonio (01758) 750600 neu ebostio pennaeth@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru er mwyn trefnu amser cyfleus.

Mewn argyfwng, cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosib os ydych yn mynd i fod yn hwyr yn casglu eich plentyn fel nad oes raid iddo/i boeni.

Mae hi'n bwysig i chi ein hysbysu o pwy fydd yn casglu eich plentyn, yn enwedig os yw rhieni yn byw ar wahân. Os ydych yn newid eich trefniadau casglu, cofiwch bod rhaid rhoi gwybod i'r ysgol - trwy alwad ffôn neu ebost.

Y Dosbarthiadau

Mae staff yr ysgol i gyd yn gweithio i sicrhau bod y disgyblion yn cael y profiadau gorau posibl yn eu bywyd ysgol. Eleni, mae'r ysgol wedi ei threfnu i 4 dosbarth sef y Dosbarth Meithrin; Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1; Dosbarth Blwyddyn 2 a 3; Dosbarth Blwyddyn 4, 5 a 6.

Staff yr Ysgol

Staff Addysgu

Mrs Helen Vaughan-Jones	Pennaeth
Mrs Einir Humphreys	Dirprwy Bennaeth ac Athrawes Blwyddyn 2 a 3
Mrs Fflur Griffith	Athrawes Blwyddyn 4, 5 a 6 a Chydlynydd ADYaCh
Mrs Delyth Roberts	Athrawes Blwyddyn 1 a Derbyn
Mrs Betty Richards	Uwch-gymhorthydd y dosbarth Meithrin

Cymorthyddion Cefnogi Dysgu

Miss Ffion Hughes	Cymhorthydd y dosbarth Meithrin
Mrs Heulwen Hughes	Cymhorthydd Blwyddyn 1 a Derbyn
Mrs Sophie Underwood-Jones	Cymhorthydd ADYaCh
Mrs Alaw Lloyd Pugh	Cymhorthydd ADYaCh
Miss Cadi Fôn Williams	Cymhorthydd Blwyddyn 2 a 3
Miss Catrin Enlli Richards	Cymhorthydd Blwyddyn 2 a 3

Staff Gofalu a Glanhau

Mrs Julie Davies	Gofalwraig
Mrs Siân Griffiths	Glanhawraig

Staff Gegin

Mrs Alwena Parry	Cogyddes
Miss Jessica Clark	Cymhorthydd Cegin

Staff Gweinyddol/Swyddfa

Mrs Sioned Roberts-Williams	Swyddog Gweinyddol

Llywodraethwyr

Mrs Lois Rhys Jones	Cadeirydd / Llywodraethwr Dynodedig Diogelu
Mr Shôn Evans	Is-Gadeirydd
Mrs Iola Rhisiart	Cynrychiolydd Awdurdod Lleol
Mr Silyn Roberts	Cynrychiolydd Cyngor Cymuned
Mr Pryderi ap Rhisiart	Cynrychiolydd Cymunedol / Llywodraethwr Dynodedig Presenoldeb
Mrs Naomi Jones	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs Siwan Tomos	Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwr Dynodedig Siarter Iaith
Mrs Einir Humphreys	Cynrychiolydd Staff Dysgu
Mrs Heulwen Hughes *(Sedd wag)*	Cynrychiolydd Staff Ategol

Helen Vaughan-Jones	Pennaeth
Sioned Williams	Clerc

Rydym yn ffodus iawn o gael Corff Llywodraethol sydd mor gefnogol i'n hysgol. Mae gan y Llywodraethwyr gyfrifoldebau neilltuol, maent yn cydweithio er lles yr ysgol ac er lles addysg eich plant. Mae'r Corff Llywodraethu yn gweithio ar y cyd gyda'r Pennaeth, y staff a'r Awdurdod Lleol i gynorthwyo'r ysgol i ddarparu'r addysg orau bosibl ar gyfer yr holl blant.

Y Cynrychiolwyr Rhieni yw eich cynrychiolwyr chi ar y Corff Llywodraethol. Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod ynglŷn â bywyd yr ysgol, dylech gysylltu â hwy neu'r Cadeirydd yn uniongyrchol. Gellir cysylltu gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr drwy'r Pennaeth neu'r Clerc: sioned.williams@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

Bydd y Corff Llywodraethol yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor i ymateb i Adroddiad y Pennaeth ac i drafod a llunio polisïau/penderfyniadau (e.e. cyllideb yr ysgol, cynllun datblygu'r ysgol). Mae nifer o Is-Baneli yn cyfarfod yn fwy rheolaidd. Rhennir y cyfrifoldebau yn ôl arbenigedd a diddordebau aelodau. Cynhelir etholiad pan fydd sedd wag ar y Corff.

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni gan y Llywodraethwyr yn ystod Tymor yr Hydref a cheir cyfle i ymateb iddo. Mae'r Adroddiadau Blynyddol i'w gweld ar wefan yr ysgol. Ceir fwy o wybodaeth am ddyletswyddau'r Llywodraethwyr ar http://www.governors.cymru/cymraeg/

Cyrraedd a Gadael yr Ysgol

Agorir drysau'r ysgol am 08:50 a bydd aelodau o staff ar iard yr ysgol i groesawu'r plant. Bydd y drysau yn cau am 09:00.

Bydd plant Derbyn – Blwyddyn 6 yn chwarae allan ar yr iard ben bore (08:50 – 09:00) ond yn mynd yn syth i'r dosbarth os bydd y tywydd yn wael. Bydd staff yr ysgol yn goruchwylio'r plant ar yr iard yn ystod y cyfnod yma.

Gofynnwn yn garedig i blant y Meithrin gael eu harwain at y brif fynedfa erbyn 9:00yb a'u casglu o'r un man am 11:00yb *(os nad ydynt yn mynychu'r Meithrin Mwy a'r Cylch).*

Clwb Brecwast	- Drws ochr y Neuadd **(08:10 - 08:50)** ***Nid oes modd derbyn plant ar ôl 08:40 i'r Clwb Brecwast**
Cylch Meithrin	- Drws ochr y Neuadd
Clwb ar ôl ysgol	- Drws ochr y Neuadd
Derbyn a Blwyddyn 1	- Gollwng y plant wrth giât y maes parcio a'u casglu o ddrws y dosbarth am 3:30yp
Blwyddyn 2, 3, 4, 5 & 6	- Gollwng a chasglu'r plant wrth giât y maes parcio

Teithio a Pharcio

Mae'r ysgol yn annog rhieni/gwarchodwyr i ddefnyddio'r bysiau neu i rannu ceir wrth ddod â'r plant i'r ysgol. Erfynnir am gydweithrediad pawb er diogelwch y plant.

Ceir maes parcio pwrpasol ar gyfer rhieni/gwarchodwyr ac ymwelwyr. Neilltuwyd parcio y tu allan i'r brif fynedfa ar gyfer bysiau, tacsis a pharcio staff yn unig. Ni ddylid defnyddio'r ardal yma fel man gollwng a chasglu'r plant. Dylid gyrru'n ofalus ac yn bwyllog ger safle'r ysgol bob amser.

Mynediad

Mae'r ysgol yn derbyn plant yn rhan amser o'r mis Medi sydd yn dilyn eu penblwydd yn dair oed ac yn llawn amser yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed.

Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau mynediad ar-lein i'r Awdurdod Addysg Leol a chyflwyno ail gais i drosglwyddo o'r Meithrin i'r Derbyn.

**** Rhaid gwneud cais cyn 1 Chwefror 2025 (ar gyfer Medi 2025) ****

Mynediad Ysgolion

Os digwydd bod mwy wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol nag sydd o le ar eu cyfer, ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

- Nifer y plant y gellir eu derbyn i'r ysgol (h.y. rhif derbyn yr ysgol ar gyfer bob blwyddyn ysgol);
- Yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel arfer gan yr ysgol. Diffinnir dalgylch Ysgol Pentreuchaf fel yr ardaloedd canlynol - Pentreuchaf, Llannor, Llwyndyrys, Llithfaen, Rhydyclafdy.
- A oes gan y darpar ddisgybl frawd neu chwaer yn yr ysgol.

Estynnir gwahoddiad i rieni/gwarchodwyr i ymweld â'r ysgol yn ystod Tymor yr Haf er mwyn cael taith tywys o amgylch yr adeilad, i gyfarfod y staff ac i dderbyn unrhyw wybodaeth pellach. Gwahoddir y plant eu hunain i dreulio sesiwn blasu yn yr ysgol cyn gwyliau'r Haf hefyd.

Mae croeso i unrhyw riant newydd sy'n ystyried danfon eu plentyn i'r ysgol gysylltu a'r ysgol i drefnu ymweliad.

Trosglwyddo i'r Uwchradd

Trosglwyddir y plant 11 oed, ar ddiwedd Blwyddyn 6, naill ai i Ysgol Glan-y-Môr, Pwllheli neu Ysgol Uwchradd Botwnnog. Mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng yr ysgolion a chaiff y plant gyfle i ymweld â'r ysgolion cyn iddynt drosglwyddo. Yr un yw'r drefn parthed mynediad a chyflwyno cais i'r Awdurdod.

**** Rhaid gwneud cais cyn 20 Rhagfyr 2024 (ar gyfer Medi 2025) ****

Mynediad Ysgolion

Diogelu Plant

Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeleustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.

Gall cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni/gwarchodwyr cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

Pryderu am blentyn

Cysylltwch â'r isod os ydych yn pryderu bod plentyn yn dioddef niwed neu esgeulustod neu'n cael ei gam-drin. Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol ymchwilio a gweithredu i warchod y plentyn, cynnig cefnogaeth a chyngor i helpu teuleuoedd i gael cymorth angenrheidiol.

Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn Ysgol Pentreuchaf yw:

Cyd-gysylltydd o blith uwch reolwyr yr ysgol:

Enw: Mrs Helen Vaughan Jones, Ysgol Pentreuchaf, Pwllheli.
Rhif ffôn cyswllt: 01758 750600
Ebost: pennaeth@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

Cyd-gysylltydd yn absenoldeb y pennaeth:

Enw: Mrs Einir Humphreys, Ysgol Pentreuchaf, Pwllheli.
Rhif ffôn cyswllt: 01758 750600
Ebost: einir.humphreys@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

Cadeirydd y Llywodraethwyr a Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant:

Enw: Mrs Lois Rhys Jones, Mwynfa, Efailnewydd, Pwllheli.
Rhif ffôn cyswllt: 01758 613677
Ebost: lois.jones@brolleu.ysgoliongwynedd.cymru

Person cyswllt yn yr Awdurdod:

Enw: Bethan Helen Jones, Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg
Rhif ffôn cyswllt: 07977 504344 / 01341 424506
Ebost: bethanhelenjones@gwynedd.llyw.cymru

Neu

Drwy'r Tim Cyfeiriadau Plant, Gwasanaethau Cymdeithasol
Rhif ffôn cyswllt: 01758 704455 Ffôn tu allan i oriau: 01248 353551
E-bost: cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru

Dylid cysylltu gyda'r person cyswllt yn yr awdurdod os oes honiadau sydd yn ymwneud ag amddiffyn plant yn gysylltiedig â'r pennaeth.

Cylch Meithrin Pentreuchaf

Mae Cylch Meithrin Pentreuchaf wedi ei leoli ar safle'r ysgol ac mae cydweithio agos rhwng yr ysgol a'r Cylch yn golygu trosglwyddo esmwyth i'r disgyblion. Fe all eich plentyn gael mynediad i'r Cylch Meithrin wedi eu penblwydd yn 2 oed. Mae'r Cylch yn cynnig gofal o 11:00 – 15:35 ar gyfer y plant. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Arweinydd Mrs Julie Davies.
Ebost: pentreuchafcylchmeithrin@gmail.com
Ffôn: 01758 750600
Mwy o wybodaeth ar gael ar wefan yr ysgol:
Cylch Meithrin Pentreuchaf

Awyrgylch ac Ethos

Fe sicrhawn fod holl awyrgylch yr ysgol yn un hapus, diogel a brwdfrydig ar gyfer y disgyblion. Ein bwriad yw ennyn hyder a balchder ymhob un o'r disgyblion. Sicrheir fod y plant yn ymwybodol o'u treftadaeth Gymreig gan gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i gadarnhau hyn.

Rhoddir pwyslais cryf ar safon uchel o ymddygiad, hunan-ddisgyblaeth a chwrteisi tuag at gyd-ddisgyblion ac oedolion.

Amcanion yr Ysgol

Mae tri pheth yn bwysig i ni yn yr ysgol:

- Cymreictod
- Parchu ein gilydd
- Gwneud ein gorau glas

Pwrpas yr ysgol yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau a fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu'n bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau. Bydd y sefyllfaoedd a'r adnoddau hyn yn darparu ar gyfer pob plentyn yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn eu cymhwyso i fod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelodau a fydd yn gallu cyfrannu a derbyn oddi wrthi gan fyw mewn hedd a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Golyga hyn:

- Galluogi pob plentyn i ddatblygu'i hun i'w lawn potensial.
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
- Rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

Amcanion Cyffredinol yr ysgol:

- Dylai pob plentyn deimlo'n hapus a diogel mewn awyrgylch gartrefol.
- Dylai pob plentyn gael y cyfle i ddatblygu hyd eithaf ei allu ym mhob agwedd o'r cwricwlwm.
- Dylai'r ysgol gyflwyno addysg sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i brofiad disgybl yn y gymuned.
- Dylai'r ysgol hybu a datblygu dwyieithrwydd.
- Dylai'r ysgol gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl.
- Dylai'r ysgol hybu cysylltiad a chydweithrediad rhieni.
- Dylai'r ysgol feithrin parch at eiddo ac at bersonau eraill.
- Dylai'r ysgol ysgogi cysylltiad â'r gymuned.

- Dylai'r ysgol bwysleisio ymddygiad, cwrteisi ac ymddangosiad.
- Dylai'r ysgol feithrin athrawon ymroddgar a brwdfrydig.

Yr Ysgol a'r Cartref

Credwn fod cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol. Mae Ysgol Pentreuchaf yn credu bod partneriaeth hapus ac agored rhwng yr ysgol a'r cartref yn holl bwysig. Dim ond wrth i'r cartref a'r ysgol gyd-weithio y gallwn helpu pob plentyn i wneud y gorau o'i alluoedd a'i adnoddau. Mae'r drws yn agored i chwi rieni/warchodwyr i drafod gyda'r athrawon neu'r pennaeth ar unrhyw adeg.

Cytundeb Ysgol/Cartref

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Ysgol/Cartref' sy'n nodi yr hyn a ddisgwylir gan yr ysgol o safbwynt ymrwymiad rhieni/gwarchodwyr a disgyblion i gefnogi'r ysgol, ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i gydweithio a darparu'r gwasanaeth gorau i rieni/gwarchodwyr a disgyblion. Bydd y ffurflen hon yn cael ei chwblhau gan y rhieni/gwarchodwyr ar gychwyn y Dosbarth Meithrin.

Gwisg Ysgol

Mae'r ysgol yn annog disgyblion i wisgo trowsus neu sgert du neu lwyd, crys polo coch (dim angen logo ar hwn) a siwmper neu gardigan lwyd gyda logo yr ysgol arno. Caniateir i'r disgyblion wisgo ffrog haf neu shorts llwyd neu ddu yn ystod Tymor yr Haf.

Caiff disgyblion eu hannog i beidio â gwisgo jîns neu dracwisg, nac unrhyw ddillad â labeli 'brand' arnynt.

Disgwylir i'r plant wisgo yn addas a thaclus bob amser. Credwn fod gwisg ysgol yn cysylltu'r disgyblion â'r ysgol ac yn creu ymdeimlad o falchder ac o berthyn. **Rhaid sicrhau bod enw'r plentyn ar bob dilledyn.** Ni chaniateir i'r plant wisgo gemwaith i rwystro unrhyw ddamweiniau. Caniateir clustdlysau styd yn unig. Gofynnwn yn garedig i'r plant beidio gwisgo ewinedd ffug yn ogystal, sydd yn gallu amharu ar eu gallu i gyflawni tasgau. Gellir gweld copi o'r Polisi Gwisg Ysgol ar wefan yr ysgol.

Gellir archebu gwisg ysgol yn uniongyrchol oddi wrth www.lakedigital.co.uk (01766) 884099 neu fe allwch helpu eich hunain i'r stoc o ddillad ail-law sydd yn yr ysgol.

Bydd eich plentyn angen crys-t, shorts a thrainers ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol. Am resymau hylendid, ni ddylent wisgo'r dillad hyn i ddod i'r ysgol yn y bore, ond newid iddynt am y wers ac yna newid i'w gwisg ysgol ar ddiwedd y sesiwn. Am resymau Iechyd a Diogelwch, ni chaniateir i unrhyw blentyn wisgo gemwaith yn ystod gwersi Addysg Gorfforol. Benthycir dillad priodol i'r plant sy'n cynrychioli timau'r ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethol yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru: Polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion: canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu (LIC23-17) Polisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion

Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â swyddog gweinyddol yr ysgol: sioned.williams@pentreuchaf.ysgoliongwynedd.cymru

Grant Hanfodion Ysgol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grant tuag at gostau gwisg ysgol ar gyfer teuluoedd sydd â phlant yn y dosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 11 ar incwm îs ac sy'n cael budd-daliadau penodol Grant Hanfodion Ysgol

Eiddo

Er hwylustod i bawb ac i arbed poen meddwl i'r plant ac i chi fel rhieni/gwarchodwyr, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod enw eich plentyn ar bob dilledyn ac eiddo personol. Ni ddylid dod ag unrhyw eiddo gwerthfawr i'r ysgol. Ni chaniateir ffonau symudol yn yr ysgol nac ychwaith unrhyw oriawr clyfar sydd â'r gallu i anfon/derbyn negeseuon neu recordio. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am eiddo personol a ddifrodir neu a gaiff ei ddwyn. Ni chaniateir teganau o unrhyw fath yn yr ysgol. Gall teganau gael eu torri drwy ddamwain ac mae hyn yn achosi poendod i blant. Ceisir meithrin ac annog y plant i chwarae gemau iard traddodiadol ac i lunio eu gemau eu hunain.

Taliadau

Mae'r ysgol yn ysgol ddi-arian parod a gofynnwn yn garedig i rieni/gwarchodwyr dalu am y bws nofio, gwersi offerynnau, unrhyw dripiau, ymweliadau preswyl ayyb trwy ddefnyddio system taliadau ar-lein Cyngor Gwynedd neu'r app School Gateway School Gateway

Polisi Codi Tâl

Yn achlysurol bydd yr ysgol yn codi tâl ar rieni/warchodwyr ar gyfer teithiau ac ymweliadau addysgol, gwersi offerynnol, costau bws i'r gwersi nofio wythnosol ayyb. Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod pan fo rhieni/gwarchodwyr yn pryderu am gostau sy'n ymwneud â'r ysgol a chynigir talu mewn rhanddaliadau neu'n wythnosol. Cedwir taliadau mor isel â phosibl bob amser a sicrheir nad yw'r ysgol yn gwneud unrhyw elw o fath yn y byd o'r gweithgareddau yma.

Gwersi Nofio

Mae holl blant yr ysgol, o'r Dosbarth Derbyn i flwyddyn 6, yn derbyn gwersi nofio bob dydd Mawrth am gyfnod o ddau dymor. Bydd dosbarthiadau Blwyddyn 2 – 6 yn mynd i'r Ganolfan Hamdden yn y bore ac yna'r dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yn y prynhawn. Mae'r ysgol yn talu am gael defnyddio'r ganolfan ac am yr hyfforddwyr ond gofynnir yn garedig am £2.00 yr wythnos er mwyn talu am gostau'r bws. Ni ellir parhau â'r trefniant hwn heb y cyfraniadau hyn.

Gwersi Offerynnol

Mae cyfle i'r disgyblion o flwyddyn 3 ymlaen dderbyn gwersi offerynnol megis gitâr, drymiau, piano, ffidil, corn neu delyn. Bydd cyllideb yr ysgol yn talu am gyfran o'r gwersi yma ond gofynnir yn garedig am swm o £150 y flwyddyn am y gwersi hyn. Bydd angen i rieni/warchodwyr arwyddo Cytundeb Gwersi Offerynnol o flaen llaw yn nodi eu bod yn ymrwymo i 30 gwers offerynnol yn ystod y flwyddyn ac nad oes modd derbyn ad-daliad os yw eu plentyn yn penderfynu rhoi'r gorau i'r gwersi yn ystod y flwyddyn.

Cysylltu â Rhieni

Rydym yn defnyddio system ebyst a negeseuon testun i hysbysu rhieni/gwarchodwyr ac mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar ein gwefan ac ar dudalen Facebook yr ysgol yn ogystal. Er mwyn

derbyn ebyst a negeseuon testun gan yr ysgol mae'n hanfodol eich bod wedi cofrestru i system taliadau ar-lein Cyngor Gwynedd Cinio Ysgol

Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn ein hysbysu am unrhyw newidiadau yn eich manylion cyswllt (e.e. newid rhif ffôn symudol, ebost) cyn gynted â phosibl.

Tywydd Garw

Gwneir pob ymdrech posibl i gadw'r ysgol ar agor. Os mewn amheuaeth, cadwch eich plentyn gartref neu ffoniwch yr ysgol. Yn achlysurol, bydd angen anfon y plant gartref yn gynnar ond byddwn yn gyrru neges destun ac ebost a bydd gwybodaeth ar ein gwefan a tudalen Facebook yr ysgol. Bydd rhestr o ysgolion wedi cau hefyd i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd.

Cinio Ysgol

Mae cinio ysgol am ddim i bob plentyn cynradd o'r dosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 6. Mae bwydlen yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol a gwefan Cyngor Gwynedd Bwydlen Ysgolion Cynradd

Mae disgyblion y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a'r Cylch Meithrin y cael eu cinio yn neuadd yr ysgol am 12:00 ac yna disgyblion Blwyddyn 2 – 6 am 12:30.

Os yw eich plentyn yn dioddef o alergedd a/neu anoddefgarwch bwyd ac angen deiet arbennig, gofynnwn yn garedig i chi hysbysu'r gogyddes Mrs Alwena Parry trwy lythyr neu ffonio'r ysgol i drafod ymhellach.

Mae'r ysgol yn caniatau i ddisgyblion gymryd cinio ysgol ar rai dyddiau penodol yn unig os ydy rhieni yn dymuno, ond rhaid cytuno ar y dyddiau ymlaen llaw. Bydd angen wythnos o rybudd os yw plentyn yn dymuno newid o ginio ysgol i focs bwyd neu i'r gwrthwyneb os gwelwch yn dda.

Pecyn Bwyd

Gall y plant ddod â phecyn bwyd ar gyfer amser cinio os ydynt yn dymuno, ond ni chaniateir poteli gwydr, diod pop na fferins. Mae'r ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac yn rhoi pwyslais mawr ar fwyta'n iach ac ymarfer corff rheolaidd. Gofynnwn yn garedig i chi ddilyn canllawiau'r Llywodraeth a GIG ar gyfer paratoi pecynnau bwyd iach.

Rhaid sicrhau bod unrhyw ffrwyth all achosi i blant dagu, fel grawnwin, llus a cheirios, yn cael eu torri yn hanner ymlaen llaw os gwelwch yn dda. Ni chaniateir cnau yn yr ysgol.

https://www.nhs.uk/change4life/recipes/healthier-lunchboxes

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/pecynnau-cinio-iach-taflen.pdf

https://www.ysgolioniachgwynedd.org/downloads/lunchboxleaflet_cym.pdf

Ysgol Iach

Mae'r ysgol yn gweithredu o fewn Mesur Ysgolion Bwyta'n Iach Llywodraeth Cymru ac wedi ymrwymo â Chynllun Ysgolion Iach Gwynedd. Mae'r cynllun yn galluogi'r ysgol i gyfrannu'n bositif tuag at iechyd a lles y disgyblion, athrawon a'r gymuned ehangach drwy ddatblygu amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd.

Darperir bwyd o ansawdd uchel gan yr ysgol ac anogir rhieni i baratoi bocsys bwyd iach i'w plant. Mae gweithdrefnau beunyddiol yr ysgol yn hyrwyddo ffordd iach o fyw. Annogir y disgyblion i ddod â photeli dŵr gyda nhw i'r ysgol bob diwrnod gan fod manteision enfawr i yfed dŵr yn rheolaidd drwy'r dydd. Cyfrifoldeb y disgyblion ydi mynd a'r poteli adref bob diwrnod i'w golchi erbyn y diwrnod canlynol. Mae gan yr ysgol beiriant dŵr wedi ei hidlo a leolir ym mhrif fynedfa'r ysgol
Bwyta'n iach mewn ysgolion a gynhelir

Clwb Gofal a Brecwast

Mae'r Cyngor yn darparu Clwb Gofal cyn-ysgol o 08:10 bob diwrnod. Mae cost o £1 ar gyfer unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd rhwng 08:10 a 08:30 yn daladwy ar-lein i Gyngor Gwynedd. Ceir brecwast am ddim fel rhan o hyn. Mae gostyngiad ar gyfer teuluoedd o 3 neu fwy o blant cynradd sy'n defnyddio'r Clwb Gofal cyn-ysgol.

Mae Clwb Brecwast am ddim ar gael rhwng 08:30 – 08:50. Bydd goruchwyliaeth yn trosglwyddo i ofal yr ysgol am 08:50. Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn briodol yn ystod y Clwb Brecwast yn union fel y mae'r disgwyl am weddill y dydd. **Ni dderbynir plant i'r Clwb Brecwast ar ôl 08:40.**

Mae'n ofynnol i chi archebu lle ar-lein i'ch plentyn ar gyfer y Clwb Gofal a/neu'r Clwb Brecwast cyn iddynt fynychu ar y diwrnod.

Clwb Ceiri (Clwb ar ôl Ysgol)

Mae clwb gwarchod ar ôl ysgol ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng **15:30 – 17:00**. Mae'r clwb yn cael ei gynnal gan Anti Cadi, Anti Ffion ac Anti Jess yn yr ystafell staff a Neuadd yr ysgol. Bydd y plant yn cael tôst a jam ar ôl cyrraedd y clwb os dymunant a diod o ddŵr neu lefrith. Mae lle i uchafswm o 12 o ddisgyblion yn y clwb. Bydd gofyn i chi gofrestru eich plentyn er mwyn medru defnyddio'r Clwb. Rhaid archebu lle ar-lein neu ar y system School Gateway cyn 12:00 ar y diwrnod. Cost y Clwb yw **£2.50 bob hanner awr.**

Amser Egwyl

Mae croeso i'r disgyblion ddod â ffrwyth i'w fwyta yn ystod amser egwyl. Ni chaniateir fferins, siocled na chreision. Mae croeso i'r plant ddod â photel ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol, ond ni chaniateir poteli gwydr na chaniau. Mae dŵr ar gael i'r plant o ffynnon ddŵr yr ysgol. Rhaid i'r plant ddod â photel blastig eu hunain a mynd a hi adref bob dydd. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am hylendid y poteli hyn. Mae llefrith am ddim ar gael ar gyfer holl blant yr ysgol pe dymunant.

Rhaid sicrhau bod unrhyw ffrwyth all achosi i blant dagu, fel grawnwin, llus a cheirios, yn cael eu torri yn hanner ymlaen llaw os gwelwch yn dda. Ni chaniateir cnau yn yr ysgol.

Tymor Ysgol 2024-2025

Tymor yr Hydref 2024	2 Medi 2024 - 20 Rhagfyr 2024
Tymor y Gwanwyn 2025	6 Ionawr 2025 - 11 Ebrill 2025
Tymor yr Haf 2025	28 Ebrill 2025 - 21 Gorffennaf 2025

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 3 Medi, 2024.

Gwyliau

28 Hydref - 1 Tachwedd 2024 (Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2024 - 3 Ionawr 2025 (Gwyliau'r Nadolig)
24 - 28 Chwefror 2025 (Hanner-Tymor)
14 - 25 Ebrill 2025 (Gwyliau'r Pasg)
5 Mai 2025 (Calan Mai)
26 – 30 Mai 2025 (Hanner-Tymor)
22 Gorffennaf - 29 Awst 2025 (Gwyliau'r Haf)

Gwyliau Ysgol 2024-25

Presenoldeb ac Absenoldebau

Yn Ysgol Pentreuchaf, rydym yn ystyried presenoldeb a phrydlondeb yn bethau pwysig iawn – er mwyn i'ch plentyn/plant fanteisio'n llawn ar addysg a bywyd yr ysgol. Hebddo, ofer byddai ein holl ymdrechion i ddarparu addysg o safon uchel; os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol ni all ddysgu na chyrraedd ei wir botensial. Bydd plant nad ydynt yn yr ysgol yn colli addysg, cyfleoedd cymdeithasol a phrofiadau hanfodol i ddatblygu'r aelodau effeithiol o gymdeithas.

Agorir drysau'r ysgol am 08:50 a bydd aelodau o staff ar iard yr ysgol i groesawu'r plant. Bydd y drysau yn cau am 09:00.

Mae'n bwysig bod y plant yn yr ysgol erbyn 08:55 er mwyn cychwyn ar ddiwrnod cyffrous arall yn brydlon am 09:00. Os bydd plentyn yn hwyr, cofnodir hynny ar y gofrestr. Dylid unrhyw blentyn sydd yn cyrraedd yr ysgol ar ôl 09:00 fynd i'r brif fynedfa er mwyn cael mynediad i'r dosbarth.

Rydym, wrth gwrs, yn deall bod plant yn sâl neu'n methu dod i'r ysgol am resymau eraill yn achlysurol. I ddiogelu eich plant ac i sicrhau eich bod chi a ni yn gwybod yn union ble maent, gofynnwn i rieni adael i ni wybod trwy alwad ffôn neu neges peiriant **CYN 09:15** os na fydd plentyn yn mynd i fod yn yr ysgol. Os na fydd eich plentyn wedi cyrraedd y dosbarth erbyn 09:15, byddwn yn cysylltu â chi drwy alwad ffôn neu drwy neges destun yn gofyn i chi roi gwybod i'r ysgol beth yw'r rheswm am yr absenoldeb. Credwn fod y system hon yn tawelu meddyliau rhieni a staff ynglŷn â diogelwch ein plant.

Mae gofyn statudol i bob ysgol gadw cofnod manwl o bob absenoldeb disgybl. Mae presenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn cael eu harolygu'n wythnosol gan y Swyddog Gweinyddol. Byddwn yn eich gwahodd i gyfarfod os bydd gennym unrhyw bryderon. Mae Swyddog Lles Cyngor Gwynedd yn monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion unigol ac ysgol gyfan yn rheolaidd gan roi cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd os bydd angen.

Gwyliau

Ni chaniateir i blentyn golli mwy na 10 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol i fynd ar wyliau. Mae'r Adran Addysg yn cynghori pob rhiant i beidio tynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau gan y bydd yn amharu'n negyddol ar addysg eich plentyn. Gofynnir yn i chwi felly atal rhag trefnu gwyliau yn ystod y tymor rhag tarfu ar addysg eich plentyn. Byddwn yn dilyn canllawiau Cyngor Gwynedd ac yn cofnodi unrhyw ddyddiau gwyliau heibio'r 10 fel 'absennol heb awdurdod.' Rhaid cwblhau *'Ffurflen gais am absenoldeb i fynd ar wyliau blynyddol'* sydd ar gael o'r swyddfa, o leiaf pedair wythnos o flaen llaw.

Presenoldeb 90% = Presenoldeb da?

Mae presenoldeb o 90% yn golygu bod plentyn wedi methu hanner diwrnod bob wythnos!

1 blwyddyn ysgol + phresenoldeb o 90% = 4 wythnos o wersi wedi eu colli!
5 mlynedd o ysgol + phresenoldeb o 90% = hanner blwyddyn o wersi wedi eu colli!

Y Gyfraith

Mae presenoldeb rheolaidd i blant o oedran ysgol statudol (5—16) yn gyfraith. CANLLAWIAU CYNGOR GWYNEDD — Beth yw'r oblygiadau cyfreithiol os yw fy mhlentyn yn triwantu?

- Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am wirio bod plant sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol ac o oedran ysgol statudol yn mynychu'n rheolaidd — bydd y Swyddog Lles Addysg ar gyfer ysgol eich plentyn yn archwilio achosion o bresenoldeb gwael ac yn fodlon gweithio'n agos gyda chi er mwyn ceisio atal y triwantu.
- Os bydd eich plentyn yn triwantu dro ar ôl tro, neu'n peidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd gall yr Awdurdod Lleol benderfynu gweithredu'n gyfreithiol er mwyn sicrhau eu presenoldeb.
- Gall yr Awdurdod Lleol weithredu mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys gwneud cais i'r Llys am Orchymyn Goruchwylio Addysg, rhoi dirwy neu erlyn a all arwain at ddirwy neu hyd yn oed garchar.

Presenoldeb yr Ysgol 2023/24

Presenoldeb = 93.29%
Targed = >95%

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gweler y tabl gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am wybodaeth ynglŷn â Chyfnodau Gwahardd ar gyfer Heintiau Cyffredin (Gorffennaf 2024) Cyfnodau Gwahardd ar gyfer Heintiau Cyffredin

Salwch a Meddyginiaeth

Os yw eich plentyn yn sâl yn ystod oriau ysgol, mi fyddwn yn cysylltu â chi yn syth ac felly mae'n bwysig bod gennym rifau ffôn cyswllt cyfredol bob amser. Gofynnwn i chi ein hysbysu o unrhyw newidiadau i rifau ffôn cyswllt yn syth os gwelwch yn dda.

Gofynnwn yn garedig i chi beidio â danfon eich plentyn i'r ysgol os ydynt yn dioddef o ddolur rhydd neu salwch am 48 awr wedi'r achos diwethaf o ddolur rhydd neu salwch. Mae hyn er tegwch i'ch plentyn ac i weddill plant a staff yr ysgol.

Rydym yn trin damweiniau achlysurol yr iard gyda synnwyr cyffredin ac mae 6 aelod o staff yr ysgol gyda Cymhwyster Cymorth Cyntaf. Os bu damwain fwy difrifol, cysylltir â'r rhieni/gwarchodwyr yn syth ac yna, os bydd angen, eir â'r plentyn i Ysbyty Bryn Beryl neu Ysbyty Gwynedd neu cysylltir â'r gwasanaethau brys.

Defnyddir system ar-lein 'Medical Tracker' i roi gwybod i rieni/warchodwyr am unrhyw anaf neu ddamwain yn yr ysgol trwy ebost. Am y rheswm hwn, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael gwybod pe bai eich manylion cyswllt yn newid. Os yw'r ddamwain yn cynnwys anaf amlwg i'r pen yna byddwn yn cysylltu â chi yn syth.

Pe bai eich plentyn angen moddion yn ystod y diwrnod ysgol bydd angen i chi gwblhau ffurflen *'Cais i'r ysgol weinyddu meddyginiaeth'* sydd ar gael o'r swyddfa. Ni allwn dderbyn unrhyw feddyginiaeth heb enw'r plentyn wedi ei labelu'n glir arno a bod rhiant wedi llenwi'r ffurflen ganiatâd bwrpasol. Ni chaniateir fferins annwyd megis strepsils, tunes ayyb heb ganiatâd.

Disgwylir i rieni/warchodwyr hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol a all effeithio ar iechyd, waith neu ymddygiad plentyn yn yr ysgol.

Hyfforddiant mewn Swydd

Bydd 6 diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd (HMS) yn cymryd lle yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Rhoddir rhybudd priodol o'r dyddiadau cau.

Ysgol Eco

Llwyddodd yr ysgol i ennill Y Faner Werdd yn ystod Tymor yr Haf 2024, sef yr achrediad Gwobr Ysgol Eco a gydnabyddir yn ryngwladol. Mae gan yr ysgol Gyngor Eco gweithgar iawn sydd yn llunio Camau Gweithredu yn flynyddol dan oruchwyliaeth Mrs Heulwen Hughes. Gwelir mwy o wybodath am waith y Cyngor Eco ar ein gwefan Cyngor Eco

Y Cyngor Ysgol

Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau awyrgylch dysgu diogel, hapus a theg i'r disgyblion. Mae llais y plentyn yn hollbwysig yn yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu pryderon a'u hanghenion. Cânt gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau mewn modd strwythuredig ac i gyfrannu'n ymarferol at benderfyniadau sydd yn ymwneud â hwy ac at rai materion rheolaethol. Mae gweithrediad effeithiol Cyngor Ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o brosesau democrataidd ac yn datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at gymuned ac amgylchedd yr ysgol.

Etholir cynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol o blith disgyblion Blwyddyn 2 – Blwyddyn 6 ar gychwyn pob blwyddyn addysgol. Yn ogystal, mae pob disgybl yn cael cyfle i fod yn aelod o Gyngor Dosbarth sydd yn bwydo syniadau i'r Cyngor Ysgol drwy eu cynrychiolydd. Bydd y Cyngor Ysgol yn cyfarfod o leiaf unwaith bob hanner tymor ac yn trafod materion sydd o ddiddordeb i'r ysgol gyfan.

Mae Cyngor Ysgol Pentreuchaf yn:

- Rhoi cyfle i'r disgyblion roi barn ar beth sydd yn digwydd yn yr ysgol.
- Rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau am beth sydd yn digwydd yn yr ysgol.
- Rhoi cyfle i'r disgyblion gyfrannu at wneud yr ysgol yn lle hapusach i bawb.
- Creu gwell dealltwriaeth rhwng disgyblion ac athrawon ac aelodau eraill o staff.

Cwricwlwm yr Ysgol

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig.

Ym mis Medi 2022, daeth Cwricwlwm newydd i rym yn ysgolion Cymru. Gellir cael mwy o wybodaeth ar y safwe Cwricwlwm i Gymru

Nod canllawiau Cwricwlwm i Gymru yw helpu bob ysgol i ddatblygu ei Chwricwlwm ei hun, gan alluogi ei dysgwyr i ddatblygu tuag at bedwar diben y Cwricwlwm – y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a person ifanc yng Nghymru.

Yn ganolog i'r cyfan mae pedwar diben y Cwricwlwm. Rhain sy'n amlinellu'r dyheadau ar gyfer pob plentyn a person ifanc i fod yn:

• Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
• Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
• Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
• Yn unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyhead fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.



Mae Cwricwlwm i Gymru 2022 yn trefnu'r dysgu o gwmpas chwe Maes Dysgu a Phrofiad sef:

1. Iaith Llythrennedd a Chyfathrebu
2. Mathemateg a Rhifedd
3. Dyniaethau
4. Gwyddoniaeth a Thechnoleg
5. Celfyddydau Mynegiannol
6. Iechyd a Lles



Gellir gweld cynnwys pob maes yn fanwl drwy fynd ar wefan Cwricwlwm i Gymru, Llywodraeth Cymru [Cwricwlwm i Gymru]

Mae hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau traws-gwricwlaidd, llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Dysgwch fwy am y Cwricwlwm yn Ysgol Pentreuchaf ar wefan yr ysgol.

Asesu Cynnydd

Rydym yn defnyddio ystod eang o ddulliau i sicrhau bod lles ac addysg eich plentyn yn gwneud cynnydd. Y prif yrrwr i asesu cynnydd eich plentyn yw'r hyn mae'r staff yn ei arsylwi yn y dosbarth a'r llyfrau o ddydd i ddydd. Mae'r dull 'Asesu ar Gyfer Dysgu' yn golygu bydd athrawon yn cynnwys eich plentyn yn y dysgu ac yn rhoi adborth dyddiol ar sut i symud eu dysgu ymlaen.

Camau Cynnydd

Mae pob maes dysgu gyda 'Camau Cynnydd'. Bydd athrawon yn defnyddio'r camau cynnydd wrth gynllunio gwersi a threfnu profiadau arbennig. Mae'r camau hyn yn disgrifio'r sgiliau mae'r plant angen eu meistrioli yn maes penodol hwnnw. Y staff sydd yn penderfynu os yw eich plentyn wedi cyrraedd 'Cam Cynnydd' mewn maes penodol drwy asesu gwaith y plentyn neu ei arsylwi o fewn gwersi.

Asesiadau Personol

Yn ystod Tymor yr Hydref a'r Haf, bydd disgyblion Blwyddyn 2, 3, 4, 5 a 6 yn gwneud Asesiadau Personol ar-lein mewn Rhifedd Gweithdrefnol, Rhifedd Rhesymegol, Darllen Cymraeg a Darllen Saesneg.

Cwricwlwm i Gymru ar dudalen



Nosweithiau Rhieni

- Cyflwynir adroddiad ‘Golwg ar Gynnydd’ am ddatblygiad eich plentyn ar ddiwedd pob tymor ac adroddiad terfynol ar ddiwedd tymor yr Haf. Bydd gwybodaeth ynglŷn â chynnydd eich plentyn â’r camau nesaf ar ffurf targedau yn rhan o’r adroddiadau yma.
- Cynhelir nosweithiau rhieni ddwy waith y flwyddyn i drafod datblygiad eich plentyn a noson agored ar ddiwedd tymor yr Haf er mwyn rhoi cyfle i rieni/warchodwyr drafod yr Adroddiad Blynyddol gyda’r athro/athrawes ddosbarth.

Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae’r Côd yn nodi nad oes hawl i ddysgwyr gael eu heithro o unrhyw ran o ACRh. Addysg cydberthynas a rhywioldeb: canllawiau statudol

Mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau sy'n gwbl gynhwysol, gan adlewyrchu amrywiaeth a hyrwyddo parch.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i hintegreiddio o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Mae'r cynnwys yn cael ei gyflwyno'n sensitif ac yn briodol i oedran ac yn cael ei gyfuno â phynciau eraill fel rhan o addysg bersonol, cymdeithasol ac iechyd. Yn hytrach na chael gwersi ar

wahân i'r pwnc, mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n naturiol drwy'r cwricwlwm gyda chyfle i drafod ac ateb cwestiynau wrth iddynt godi mewn gwersi unigol.

Gellir gweld y polisi llawn (sy'n manylu ar yr agweddau a gyflwynir, pa bryd a sut) drwy law y pennaeth.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Yn Ysgol Pentreuchaf mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi fel unigolyn ac ymdrinnir â'i anghenion yn sensitif ac yn effeithiol. Credwn fod pob plentyn yn derbyn cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol gan sicrhau bod hunan-barch a hyder yn cael eu cyfoethogi a bod agwedd gadarnhaol yn cael ei datblygu. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gynhwysiad llwyddiannus disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn Ysgol Pentreuchaf mae pob plentyn yn gyfartal, yn cael ei werthfawrogi ac yn unigryw. Ein nod yw darparu amgylchedd lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu ffynnu. Byddwn yn ymateb i unigolion mewn ffyrdd sy'n cymryd eu profiadau bywyd amrywiol a'u hanghenion penodol i ystyriaeth.

Mae Ysgol Pentreuchaf wedi ymrwymo i ddarparu addysg sy'n galluogi pob disgybl i wneud cynnydd fel ei fod yn cyflawni hyd eithaf ei allu, yn dod yn unigolion hyderus sy'n byw bywyd llawn ac yn pontio'n llwyddiannus i fyd oedolion.

Mae'r ysgol hon yn gweithredu'r Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sy'n sicrhau bod unrhyw ddisgybl sy'n profi anawsterau dysgu yn derbyn y gefnogaeth a'r ddarpariaeth angenrheidiol o fewn yr ysgol neu gan yr Awdurdod Addysg Lleol, os oes angen. Mae datblygiad y plant yn cael ei asesu'n barhaus, ac os nad ydynt yn cyrraedd y targedau neu'r disgwyliadau ar gyfer eu grŵp blwyddyn, cânt eu gosod ar gam priodol o fewn y Cod Ymarfer i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Cydlynydd ADY yr ysgol

Mrs Fflur Griffith sy'n gyfrifol am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn yr ysgol. Mae hi hefyd yn cydlynu'r staff cefnogol sy'n gweithio gyda disgyblion ar y gofrestr ADY. Llunnir Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y ddarpariaeth addysgiadol a chefnogol briodol. Cynhelir Adolygiadau Blynyddol i roi cyfle i rieni drafod datblygiad eu plentyn gyda'r athro/athrawes dosbarth, staff cefnogol, a gweithwyr proffesiynol allanol.

Cefnogaeth Ychwanegol ac Ymyraethau Allanol

Yn achos rhai disgyblion, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol gan yr ysgol a mwy. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau allanol megis Therapyddion Llefaredd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Seicolegwyr Addysg neu Weithwyr Iechyd Proffesiynol eraill. Mewn rhai achosion, gall hyn arwain at asesiad mwy ffurfiol gan Seicolegydd Addysg ac, os yn briodol, gellir dyfarnu Cynllun Datblygu Unigol Awdurdod (CDU-A) yn dilyn ymgynghoriad gyda'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

Yn ystod holl gamau'r broses o ddarparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol unrhyw ddisgybl, rydym yn ceisio gweithio mewn cysylltiad clos â'r rhieni, gan bwysleisio pwysigrwydd perthynas gydweithredol iach rhwng yr ysgol a'r cartref.

Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'n rhaid i bob ysgol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru ddweud wrth rieni a Llywodraeth Cymru ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu. Yng Nghymru, gall hyn fod naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu'n gyfuniad o'r ddwy iaith.

Y Drefn Gategoreiddio newydd (Medi 2022)

Newidiodd Categori Iaith yr ysgol yn mis Medi 2022 ac, ers hyn, dynodir yr ysgol yn **Ysgol Categori 3, Cyfrwng Cymraeg**. [Ceir mwy o wybodaeth am hyn ar wefan Llywodraeth Cymru].

Canllawiau ar Gategoreiddio Ysgolion yn ol y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg



Categorïau Ysgolion – Y Sector Cynradd

Dyma ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg:

Categorïau Ysgolion – Y Sector Cynradd
Categori 3 - Ysgol Cyfrwng Cymraeg
Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.

Mae holl ysgolion cynradd Gwynedd felly, ar wahân i Ysgol Ein Harglwyddes, yn disgyn i Gategori 3 gan fod y meini prawf uchod yn adlewyrchu ein polisi iaith addysg presennol.

Polisi Iaith

Amcanion Cyffredinol

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd a hefyd, yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn ran ohoni. Dylai holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd

Y Gymraeg yw iaith naturiol yr ysgol ac anogir y plant i'w defnyddio'n gymdeithasol yn yr ysgol a thu hwnt. Defnyddir y Gymraeg fel iaith addysgu ym mhob pwnc sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu'r ysgol ac yn iaith gyntaf i fwyafrif y disgyblion.

Pan ddaw plant o gartrefi di-gymraeg i'r ysgol byddant yn cael eu trwytho yn awyrgylch naturiol Cymreig yr ysgol a buan iawn y dônt yn rhugl yn yr iaith a gwerthfawrogir cael cefnogaeth y rhieni yn hyn o beth. Trefnir hefyd iddynt fynychu un ai Canolfan Iaith Llangybi neu Eifionydd am gyfnod o dymor.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol o'r dosbarth Meithrin hyd at flwyddyn 2, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Dechreuir cyflwyno'r Saesneg ar ddiwedd Blwyddyn 2 er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cyfle i ddatblygu'n gwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol yn 11 oed.

Ein nod yw sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys sy'n berthnasol i'w hoed er mwyn galluogi i fod yn aelod cyflawn o gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Siarter Iaith Gwynedd

Rydym yn hyrwyddo nod Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Gwynedd, sef i arwain at gynnydd yn nefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, gan eu hysbrydoli i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Mae'r Siarter Iaith yn hybu'r Gymraeg mewn dulliau hwyliog. Anelwn at i bob plentyn ddewis a gallu siarad Cymraeg graenus ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, ac i ymfalchïo yn iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymreig. Mae siarad dwy iaith yn agor drysau i gymuned, byd gwaith a bywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol.

Amcanion Penodol

Addysg Feithrin

Sicrhau, drwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Blynyddoedd Cynnar

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Iau

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen, ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhoddir 50% o'r amser dysgu i'r Gymraeg a 50% i Saesneg.

Pan ddaw hwyrddyfodiaid i'r ysgol (o flwyddyn 2 ymlaen) h.y. plentyn nad yw'n siarad Cymraeg o gwbl, yna cynigir cwrs trochi am dymor yng Nghanolfan Iaith Llangybi neu Porthmadog. Yno bydd y plentyn yn rhan o grŵp dysgu bychan a bydd yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Yn ystod y tymor byddant yn dilyn y cwricwlwm ysgol arferol yn ogystal â chael dysgu Cymraeg. Cludir y plant i'r canolfannau yn rhad ac am ddim.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol. Cristnogaeth yw prif ffocws y gweithgareddau, ond cyflwynir agweddau ar grefyddau eraill megis Iddewiaeth ac Islam hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn datblygu dealltwriaeth o gredoau gwahanol a'r amrywiaeth grefyddau sy'n bodoli o fewn cymdeithas. Cynhelir gwasanaethau ysgol gyfan yn y neuadd ac yn y dosbarthiadau a byddant yn Gristnogol yn bennaf. Yn achlysurol, tynnir sylw at gredoau eraill. Byddwn hefyd yn gwahodd aelodau o'r gymdeithas atom i arwain gwasanaeth o bryd i'w gilydd. Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaeth cyffelyb. Trefnir casgliadau achlysurol tuag at achosion dyngarol lleol a chenedlaethol yn ogystal.

Plant mewn Gofal

Mae gan bob plentyn yng ngofal yr Awdurdod Addysg hawl i fynediad at addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg, gan dderbyn pob cyfle, cymorth a chefnogaeth i ddatblygu'n addysgol a chymdeithasol. Mae Gwasanaethau Ysgolion, yn unol â'u dyletswyddau statudol, yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles a chyflawniad addysgol plant sydd yn derbyn gofal. Ceir mwy o fanylion ym mholisi yr ysgol.

Y Pennaeth yw'r person sy'n benodol gyfrifol am hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg.

Profiadau

Rydym yn credu'n gryf mewn rhoi profiadau bythgofiadwy i'n disgyblion. Trefnir ymweliadau yn ymwneud â'r themâu yn dymhorol. Bydd yr athrawon dosbarth yn ymchwilio i ymweliadau pwrpasol fydd yn cyfoethogi dysgu ac addysgu effeithiol. Gwahoddir siaradwyr gwadd i annerch y plant yn yr ysgol yn ogystal.

Gwaith Cartref

Bydd y plant yn derbyn gwaith cartref yn achlysurol yn yr ysgol hon. Bydd yr athrawon yn gosod gwaith cartref sillafu, tablau a darllen yn ôl yr angen. Bwriad y gwaith cartref yw cefnogi'r addysg sy'n digwydd yn y dosbarth yn ogystal â rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ymarfer eu sgiliau darllen, sillafu a gweithio ar dasgau mathemategol a gwyddoniaeth. Yn achlysurol bydd angen i'r disgyblion ymchwilio ar gyfer gwaith dosbarth.

Gobeithir y bydd diddordeb y plant mewn themâu a meysydd arbennig yn ymestyn yn aml i'r oriau ar ôl ysgol. Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. O dro i dro gall athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu unrhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.

Wrth reswm, yn y cartref, mae'r disgwyliad arnoch chi fel rhieni/gwarchodwyr i helpu eich plentyn ddysgu sillafu, tablau ac yn enwedig i ddarllen yn rheolaidd a darllen stori o bryd i'w gilydd yn parhau. Mae hyn yn allweddol ar gyfer cynnydd academaidd eich plentyn. Bydd llwyddiant y cynllun gwaith cartref yn ddibynnol ar gydweithrediad effeithlon ysgol/cartref.

Ond yn bwysicach na chynnydd academaidd, mae lles emosiynol, corfforol, meddyliol a chymdeithasol uwchlaw popeth. Felly, drwy leihau'r swmp o waith sy'n mynd adref, mae polisi gwaith cartref yr ysgol yn eich galluogi i barhau gyda'r pethau pwysig mae'r rhan fwyaf ohonoch yn ei wneud fel teuluoedd.

Felly, ewch am dro i draeth Pwllheli, Llanbedrog neu Forfa Nefyn; ewch i goncro mynydd Carnguwch, Yr Eifl neu Garn Fadryn; ewch i grwydro llwybrau lleol newydd yn eich cynefin; ewch i'r parc i redeg, cicio pêl a cholli'ch gwynt; casglwch gregyn, dail a choncyrs yn yr Hydref; ewch i'r ganolfan hamdden ar benwythnos a manteisiwch ar gyfnodau 'nofio am ddim'; ewch ati i greu model allan o ddeunyddiau wedi'i ail-gylchu a'i beintio'n lliwiau'r enfys; ewch am dro ar lwybr beics; ewch allan wedi iddi dywyllu i edrych ar ryfeddodau'r sêr; ewch am dro gyda chamera neu iPad i dynnu lluniau natur, adeiladau neu unrhyw beth difyr arall; tynnwch eich plentyn i'ch cesail a mwynhewch lyfr da gyda'ch gilydd; bwytewch gyda'ch gilydd o amgylch y bwrdd gan sgwrsio am bob dim dan haul….

Darllen Adref

Mae'r ysgol yn gweithredu cynllun Darllen ar y Cyd rhwng rhieni a phlant yn y cartref. Cedwir cofnod o'r hyn y mae plentyn wedi ei ddarllen mewn llyfryn arbennig. Gwerthfawrogwn eich cyfraniad yn y llyfryn wythnosol. Byddwn yn hyrwyddo ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol sydd yn annog y disgyblion i ddarllen megis Diwrnod y Llyfr a Her Ddarllen Gwyliau'r Haf yn ogystal.

Cyfle Cyfartal

Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail hil, rhyw, gallu, crefydd, lliw, iaith nac anabledd.

Ehangir gorwelion bechgyn a genethod drwy greu amgylchedd lle ni cheir gwahaniaethu ar sail rhyw a lle herir ystrydebau traddodiadol. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal i ferched a bechgyn ar draws y cwricwlwm. Nid yw'r athrawon na'r staff atodol yn gosod disgwyliadau gwahanol i ferched a bechgyn. Mae'n anghyfreithlon ym Mhrydain Fawr i wahaniaethu o ran rhyw wrth benodi, diswyddo neu'n dyrchafu swyddi. Sicrheir bod Ysgol Pentreuchaf yn glynu wrth y deddfau perthnasol wrth benodi staff. Mabwysiadwyd polisi Cydraddoldeb gan yr ysgol, sydd yn nodi ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol ac i osgoi gwahaniaethau anghyfreithlon. Am fwy o wybodaeth gweler y polisi Cydraddoldeb ar wefan yr ysgol.

Yn Ysgol Pentreuchaf byddwn yn:

- Darparu cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag fo'i ryw, ei allu, ei gefndir diwylliannol ac ethnig.
- Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn dioddef rhagfarn ar sail hil, cred, rhyw, iaith, gallu addysgol, safle cymdeithasol nac anabledd.
- Sicrhau fod holl ystod y cwricwlwm a holl adnoddau'r ysgol ar gael i bob disgybl.
- Sicrhau fod agweddau cymdeithasol cadarnhaol yn cael eu meithrin yn yr ysgol.
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol.
- Cael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon - yn seiliedig ar ddeddf cysylltiadau Hiliol 2000.

Hygyrchedd

Mae cynllun yr ysgol yn sicrhau mynediad rhwydd i ddisgyblion a rhieni/gwarchodwyr sydd ag anableddau. Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol yn cychwyn yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion

disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Cysyllter â'r pennaeth am ragor o fanylion.

Cyfeillion yr Ysgol

Prif nôd Cyfeillion Ysgol Pentreuchaf yw cyfoethogi'r profiadau mae ein plant ni yn ei gael yn yr ysgol a galluogi ein plant i gael mynediad i gyfoeth o weithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau a'u hunan-hyder. Fel y gwyddoch, mae ysgolion yn flynyddol yn derbyn cwtogiad yn eu cyllidebau ac o ganlyniad mae cyfraniad ariannol y Cyfeillion yn caniatau i'n plant barhâu i fynd ar deithiau addysgol a chael adnoddau ar gyfer yr ysgol sy'n sicrhau bod ein plant ni ar flaen y gâd ac yn datblygu'n blant cyflawn.

Mae Cyfeillion yr Ysgol yn cyfarfod yn dymhorol i drefnu a thrafod gweithgareddau ac rydym yn croesawu rhieni a chyfeillion newydd bob amser. Mae gan bob rhiant a chyfaill i'r ysgol gyfraniad i'w gynnig ac rydym yn cydnabod hynny ac eisiau i bob rhiant fod â rôl weithredol.

Yr Urdd

Bu cysylltiad agos â'r Urdd o'r cychwyn cyntaf. Mae gan blant yr ysgol draddodiad o gystadlu eisteddfodol cyfoethog. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn y gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a rhai awyr agored a drefnir gan yr Urdd. Gall plant gystadlu mewn Eisteddfodau lleol sy'n cwmpasu gwahanol agweddau ar ddiwylliant Cymreig, yn cynnwys perfformiad, celfyddydau, a chrefftau a thechnoleg. Mae'r llwyddiant yma yn arwain at gystadlu ar lefel Sirol ac yna'n Genedlaethol. Mae'r plant hefyd yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau chwaraeon a mabolgampau.

Trefnir ymweliadau preswyl byr i wersylloedd yr Urdd ar gyfer plant Blwyddyn 3 – 6 yn flynyddol. Caiff disgyblion Blwyddyn 3 y cyfle i fynd i wersyll yr Urdd, Glan-llyn, Blwyddyn 4 a 5 i wersyll yr Urdd Llangrannog a Blwyddyn 6 i wersyll yr Urdd, Caerdydd. Yma, cânt brofi amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys chwaraeon dŵr, sgiliau dringo a mynydda, cwrs antur/rhwystrau, nofio, bowlio deg, ymweld â'r Senedd, Amgueddfa Pwll Mwr, Amgueddfa Sain Ffagan ayyb ac adloniant gyda'r nos mewn amgylchedd lle siaredir Cymraeg.

Chwaraeon

Yn ogystal a gwersi Iechyd a Lles fe anogir disgyblion i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau chwaraeon, megis gemau pêl-droed, pêl-rwyd, hoci, rygbi, gala nofio ac ati. Drwy amrywiol brofiadau corfforol gobeithir gosod sylfaen i fywyd iach a gweithgar a dysgu pob plentyn sut i gymryd rhan a mwynhau gweithgareddau corfforol.

Ymddygiad

Yn Ysgol Pentreuchaf credwn fod safon uchel o ymddygiad ac ethos cadarnhaol yn holl-bwysig ar gyfer cyflwyno addysg o'r ansawdd orau ac ar gyfer rhoi sgiliau bywyd positif i'r plant. Rydym yn canolbwyntio ar ganmol ymddygiad da ac atgoffa'r plant yn rheolaidd o reolau'r dosbarth a'r ysgol. Mae ein hystafelloedd dosbarth yn lleoedd prysur ac atyniadol gyda'r plant yn mwynhau dysgu, yn gweithio'n galed ac yn ymddwyn yn dda. Rydym yn credu mewn amddiffyn hawliau dysgu a diogelwch pob un o'r disgyblion, felly pe bai plentyn yn methu dilyn y rheolau ac yn ymddwyn mewn ffordd sydd yn amharu ar eraill mae gennym gamau pendant y byddwn yn eu dilyn. Mae copïau o'n Polisi Ymddygiad llawn ar gael o swyddfa'r ysgol. Hoffwn bwysleisio, ein bod yn falch iawn o ymddygiad rhagorol y disgyblion ac yn falch iawn o sut mae'r ysgol wedi datblygu i fod yn gymdeithas o unigolion sydd yn gofalu am ei gilydd.

Mae hawl sylfaenol gan holl aelodau'r ysgol gael eu parchu gan bawb ac i brofi bywyd hapus yn yr ysgol. Mae unrhyw fath o fwlio yn hollol annerbyniol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn ac yn drylwyr i bob achos o fwlio. Gwnaiff yr ysgol pob ymdrech i sicrhau nad yw bwlio yn digwydd.

Yn ogystal, mae Cyngor yr Ysgol yn cyfarfod yn gyson ac yn trafod unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hawliau fel unigolion. Dylid cysylltu â'r ysgol ar unwaith pan fo rhieni/gwarchodwyr yn pryderu am achosion o fwlio. Gweler y polisi Ymddygiad Disgyblion gan gynnwys Gwrth-fwlio ar wefan yr ysgol am wybodaeth pellach Polisi Ymddygiad

Mae system ddisgyblaeth gadarn yn ei lle yn yr ysgol. Gelwir rhieni i'r ysgol i drafod unrhyw ymddygiad sy'n peri pryder neu gamymddwyn parhaol. Ein bwriad bob amser yw i gydweithio er lles y plentyn a chanfod beth sy'n peri'r newid. Mae gan yr ysgol systemau a phrotocolau pendant ar gyfer diarddel disgyblion dros dro neu'n barhaol fel y cam eithaf.

Mae pob dosbarth yn mynd drwy'r broses o drafod a chreu rheolau penodol ar gyfer eu dosbarth pob blwyddyn. Rydym yn ystyried llais y plentyn yn bwysig wrth fynd ati i lunio'r rheolau yma.

Iechyd a Diogelwch yn yr Ysgol

Mae'r ysgol yn adolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson. Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol.

- Dechreuir yr ysgol am 9 o'r gloch. Disgwylir i'r plant fod yn brydlon a chyrraedd rhwng 08:50 - 09:00. Byddant yn cael eu cofnodi fel 'hwyr' os byddant yn cyrraedd ar ôl y cyfnod cofrestru am 09:15.
- Bydd y staff yn swyddogol gyfrifol am bob plentyn 10 munud cyn dechrau oriau ysgol, sef o 08:50 ymlaen.
- Ni dderbynir unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw blentyn sy'n cyrraedd yr ysgol CYN 08:50, oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Gwarchod/Clwb Brecwast sydd yn agor am 08:10.
- Ni chaniateir i blentyn adael tir yr ysgol heb ganiatâd.
- Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i weddill yr ysgol a bydd disgwyl iddynt lofnodi i mewn ac allan o'r adeilad.
- Cynhelir ymarferion tân yn dymhorol.
- Ni chaniateir rhedeg o fewn yr ysgol.
- Rhaid cadw at reolau chwarae ar yr iard a'r cae.
- Rhaid dod oddi ar gefn beic neu sgwter pan ar dir yr ysgol.
- Pawb i fynd allan o'r adeilad yn ystod amser egwyl.
- Ni chaniateir dod a fferins, creision na diod o unrhyw fath i'r ysgol. Caniateir ffrwythau ar gyfer amser egwyl.
- Nid yw'r ysgol yn gyfrifol am unrhyw golled neu niwed i eiddo personol y disgyblion. Ni chaniateir teganau, ffonau symudol nac unrhyw oriawr clyfar yn yr ysgol.
- Disgwylir i bob rhiant sicrhau bod enw'r plentyn wedi ei labelu'n glir ar bob dilledyn ac eiddo personol.
- Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch y plant tra ar dir yr ysgol neu dan ofal athro/athrawes oddi allan i'r ysgol. Cyfrifoldeb y rhieni neu warchodwyr ydynt unwaith y maent y tu allan i giatiau'r ysgol ar ddechrau neu ar ddiwedd diwrnod ysgol.
- Bydd yr ysgol yn gorffen am 3:30yp i bawb. Os bydd rhieni/gwarchodwyr yn hwyr yn casglu eu plentyn/plant, byddant yn cael yn gwarchod yn y Clwb ar ôl Ysgol. Bydd ffi o £2.50 bob hanner awr yn cael ei godi am y gwasanaeth hwn.
- Os bydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni hysbysu'r pennaeth neu athro/athrawes y plentyn o flaen llaw am y trefniadau a wnaed.

- Disgwylir i bob plentyn fod yn ymwybodol o'r angen i ymddwyn yn gwrtais a chymwynasgar ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol.

Difrodi Eiddo

Disgwylir i unrhyw blentyn sy'n difrodi eiddo'r ysgol yn fwriadol neu drwy anwybyddu rheolau'r ysgol, wneud iawn am y golled. Os bydd plentyn yn colli eiddo a fenthyciwyd iddo gan yr ysgol, disgwylir iddo ddigolledu'r ysgol. Hysbysir y rhieni/gwarchodwyr o'r gost trwy lythyr.

Dim Ysmygu

Mae gan yr ysgol bolisi Dim Ysmygu o fewn yr adeilad ac ar dir yr ysgol.

Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio

Mae gan yr ysgol bolisi Atal Eithafiaeth a Radicaleiddio. Prif nod y polisi yw sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o arwyddion radicaleiddio. Dylai staff yr ysgol ddeall pryd mae'n briodol i wneud cyfeiriad i'r rhaglen 'Channel'. Mae'r ysgol wedi sicrhau fod pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant Gwrth-radicaleiddio ar lein er mwyn codi ymwybyddiaeth sylfaenol. Bydd unrhyw aelod newydd o staff yn derbyn hyfforddiant fel rhan o'u cyfnod anwytho.

Cloi mewn Argyfwng

Rydym yn cynnal ymarfer 'Cloi mewn Argyfwng' yn flynyddol yn yr ysgol. Bydd rhieni/gwarchodwyr yn derbyn llythyr yn eich hysbysu pryd fydd yr ymarfer yn cymryd lle.

Ymddygiad amhriodol tuag at staff

Mae'r ysgol hon yn le trefnus, diogel, ble mae staff ac ymwelwyr, yn arbennig rhieni, yn dangos parch tuag at ei gilydd ac yn cydnabod cyd-gyfrifoldeb am les a chynnydd addysgol disgyblion. Mae cyfraniad rhieni yn ffactor bwysig mewn llwyddiant addysgol ac mewn delio â phroblemau sy'n datblygu.

Ni chaiff trais, ymddygiad bygythiol a sarhau staff ysgol neu aelodau eraill o gymuned yr ysgol hon ei oddef. Mae gan bob aelod o gymuned yr ysgol hawl i ddisgwyl bod eu hysgol yn fan diogel i weithio a dysgu ynddi. Nid oes lle i drais, ymddygiad bygythiol na sarhau yn yr ysgol hon.

Os ceir digwyddiad bygythiol, gofynnir i'r sawl sy'n gyfrifol adael neu, os yw hynny'n briodol, ei wahodd i fan tawel am drafodaeth gydag o leiaf dau aelod o'r staff yn bresennol.

Os ystyrir bod hynny'n briodol, dylai'r aelod o'r staff sy'n cael ei fygwth yn uniongyrchol o ganlyniad i'r ymddygiad bygythiol, gysylltu â'r heddlu.

Bydd pob digwyddiad yn cael ei gofnodi.

Gweithdrefnau Cwyno

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 29 o'r Ddeddf Diwygio Addysg 2002, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.

Os oes gennych broblem mewn perthynas ag addysg eich plentyn, gwnewch apwyntiad i weld yr athrawes ddosbarth ar y cyfle cyntaf drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o broblemau yn anffurfiol gan yr athrawes dan sylw. Os teimlwch nad yw eich problem wedi ei datrys, neu bod gennych bryderon am fater arall, gwnewch apwyntiad i weld y Pennaeth. Pe baech yn parhau'n anfodlon, gellir gwneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Llywodraethwyr trwy law y Clerc. Mae'r

Llywodraethwyr yn mabwysiadu'r weithdrefn â argymhellir gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer ymdrin â chwynion. Pe digwyddai'n annebygol eich bod yn teimlo nad ymdriniwyd â'ch pryder yn effeithlon, dylech ysgrifennu at yr Awdurdod Addysg Lleol. Gweler y Polisi Delio gyda Chwynion ar wefan yr ysgol Polisi Delio gyda Chwynion